

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Archwiliad Blynyddol 2015

# **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 754A2015

# Statws yr adroddiad

---

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddir dan Adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod Adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd bartïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgeliad neu aildddefnydd o'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn oedd John Herniman, David Thomas, Anne Beegan ac Alison Butler.

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwiliad o gyfrifon	8
Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-2015 y Bwrdd Iechyd, er trwy wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater ac wedi gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio i esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol statudol newydd	8
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb wrth ddefnyddio adnoddau	12
Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig, ond mae pwysau gweithredol a methiant i ganfod a chyflenwi'r gostyngiadau cost angenrheidiol yn golygu ei fod ar hyn o bryd yn rhagweld diffyg cyllid o £23 miliwn, o'i gymharu â diffyg wedi'i gynllunio o £13 miliwn, ar ddiwedd 2015-16	13
Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol	15
Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae cyfleoedd hefyd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol	19
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwiliad Blynyddol	25
Ffi archwilio	26
Prif risgiau archwilio	27

# Adroddiad cryno

---

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi ei gyflawni ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi ei wneud yn y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i mi gyflawni fy nyletswyddau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio ei adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad i'w gweld yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod a chaiff eu cywirdeb ffeithiol ei gytuno gyda swyddogion a chânt eu cyflwyno i'r pwyllgor perthnasol. Mae'r adroddiadau yr wyf wedi eu cyhoeddi i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Mae cywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn wedi cael ei gytuno gan y tîm gweithredol. Caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 28 Ionawr 2016 a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Fel rhan o weithdrefnau arferol y Bwrdd Iechyd, bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd fel rhan o bapurau'r Bwrdd. Yn dilyn ystyriaeth y bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.audit.wales](http://www.audit.wales)).
5. Mae'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio'n cael eu crynhoi dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwiliad o gyfrifon

6. Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-2015 y Bwrdd Iechyd, er trwy wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Mae'r rhain yn ymwneud â gwella rheolaethau mewnol ac arferion cyfrifo ar gyfer datgeliadau taliadau sector cyhoeddus, prynu offer tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, a chydymffurfiaeth â rheolaethau awdurdodi.
7. Rwyf hefyd wedi gosod adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau'r Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â nhw, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-2016.
8. Rwyf hefyd wedi dod at y casgliad:
  - bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi'n iawn ac yn faterol gywir, ond mae cwmpas ar gyfer gwella mewn rhai meysydd;
  - bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamfynegiant materol i'r datganiadau ariannol; a
  - bod gweithgareddau rheoli'r Bwrdd Iechyd y gwnaethom eu hystyried fel rhan o'r archwiliad yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu fel y bwriadwyd, er bod rhai gwendidau sydd angen camau gweithredu gan y rheolwyr.

- 
9. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar ddiwedd 2014-2015. Amlinellaf mewn mwy o fanylder y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheolaeth ariannol yn **Adran 2** yr adroddiad hwn.

## **Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb wrth ddefnyddio adnoddau**

10. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer diogelu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb o ran defnyddio ei adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith asesu strwythuredig, sydd wedi archwilio trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, dichonoldeb ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed o ran gwella problemau a nodwyd y llynedd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad yng nghyswllt agweddau penodol ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

**Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig, ond mae pwysau gweithredol a methiant i nodi a chyflawni'r gostyngiadau cost sydd eu hangen yn golygu ei fod yn rhagweld diffyg o £23 miliwn, o gymharu â diffyg cynlluniedig o £13 miliwn ar ddiwedd 2015-16**

11. Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o sefyllfa ariannol a threfniadau rheoli'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:
- roedd y pwysau ariannol yn gynyddol anghynaliadwy yn 2014-15, ac o ganlyniad i hyn methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni cydbwysedd ariannol yn unol â'i gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ac adroddwyd diffyg o £21 miliwn ar ddiwedd 2014-15; ac
  - mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn eithriadol o anodd, a rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn yn 2015-16, er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn yn dilyn cadarnhad y bydd yn derbyn rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir, ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol**

12. Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:
- mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn darparu sail gadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen, ond bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei sefyllfa ariannol ac yn cydnabod effaith Cynllun De Cymru;
  - mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu, gyda thystiolaeth o weithlu brwdfrydig a gwybodus, ond mae capasiti mewn rhai swyddogaethau corfforaethol, a'r ffaith bod staff yn gweithio dros dro ar rai lefelau drwy'r sefydliad, yn parhau i gyflwyno heriau;

- 
- mae effeithiolrwydd, sicrwydd a rheolaethau mewnol y bwrdd yn dal i gael eu cryfhau, ac ar y cyfan maent yn effeithiol, er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd;
  - mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, ond mae trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau rhoi'r sicrwydd sydd ei angen; a
  - chaiff y bwrdd ei hysbysu mewn modd priodol ynglŷn â'i berfformiad, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o waith craffu yn ei bwylgor perfformiad, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddangos ei fod yn gwella yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol.

Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae cyfleoedd hefyd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

13. Mae canfyddiadau allweddol fy adolygiadau archwilio perfformiad fel a ganlyn:
  - mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac mae'n dangos ymgysylltiad cymunedol a gwaith partner cryf, ac mae wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yng nghyswllt cynllunio ei weithlu, ond erys risgiau ynghylch ystadau;
  - mae cryfderau o ran sut mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli meddyginiaethau, ond mae hefyd lle i wella mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'r dull strategol, cyfleusterau storio, trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau, a monitro perfformiad;
  - o fan dechrau anodd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ddarganfod maint yr angen am ôl-driniaeth ymysg ei gleifion allanol, ond mae gormod o gleifion yn profi oedi, mae'r duedd yn gwaethygu, ac mae angen iddo wneud llawer mwy i ddatblygu gwasanaethau ôl-driniaeth cleifion allanol sy'n gynaliadwy; ac
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd ar lawer o'r materion a nodwyd yn fy adolygiadau blaenorol, ond nid yw'r holl gynlluniau gweithredu'n cael eu monitro, ac mae adolygiad mwy manwl o argymhellion arlwygo a maeth wedi nodi bod angen gwneud rhagor o gynnydd yn y maes hwn.
14. Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar cymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

15. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn amlinellu canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr 2015 a mis Rhagfyr 2015.
16. Caiff fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd ei wneud mewn ymateb i'r gofynion a amlinellir yn Neddf 2004.<sup>1</sup> Yn ôl y Ddeddf, mae gofyn i mi:
  - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon wedi cael eu gwario at y dibenion y'u bwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
  - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran defnyddio ei adnoddau.
17. Yng nghyswllt (c), rydw i wedi cael sicrwydd neu fel arall o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
  - canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a wnaed archwilio'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a defnyddio adnoddau;
  - archwiliadau perfformiad a wnaed gan y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo'r rhain yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
  - gwaith arall, megis ardystio ceisiadau a ffurflenni.
18. Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon a nodir yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn grynodedig o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau mwy manwl hyn, ac mae rhestr ohonynt wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.
19. Bydd canfyddiadau fy ngwaith yn cael eu hystyried o dan y penawdau canlynol:
  - Adran 1: Archwiliad o gyfrifon
  - Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau cynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran defnyddio adnoddau
20. Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf ynglŷn â'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a amlinellwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.
21. Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn amlinellu'r prif risgiau archwilio ariannol y tynnwyd sylw atynt yn fy nghynllun archwilio 2015, a sut wnaeth yr archwiliad ymdrin â nhw.

---

<sup>1</sup> Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

---

## Adran 1: Archwiliad o gyfrifon

- 22.** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol, ac yn amlinellu ei gostau gweithredu net, ei ddatganiad o'i sefyllfa ariannol, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol.
- 23.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae gofyn i mi roi fy marn ynghylch:
- p'un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
  - p'un a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau – p'un a ydynt o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
  - p'un a ydynt yn cael eu paratoi ymlaen llaw yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - p'un a yw'r rhan o'r adroddiad tâl a fydd yn cael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n iawn; a
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 24.** Drwy roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm cod arferion archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISA).
- 25.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae'r archwilwyr hefyd wedi archwilio pa mor addas yw:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
  - gweithgareddau rheoli yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r archwiliad

**Rydw i wedi cyflwyno barn ddiamod ynglŷn â datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15, a thrwy wneud hyn, rwyf wedi dod â nifer o faterion i sylw swyddogion a'r pwyllgor archwilio, ac rwyf wedi gosod adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio, er mwyn esbonio'r ddwy ddyletswydd ariannol statudol newydd**

**Roedd cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol ac roeddent yn fanwl gywir, ond mae lle i wella mewn rhai meysydd**

- 26.** Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu cyflwyno mewn da bryd ar gyfer y dyddiad cau ar 1 Mai 2015. Roedd hefyd tystiolaeth glir bod y datganiadau ariannol wedi bod yn destun gwiriadau sicrwydd ansawdd, gan gynnwys adolygiad dadansoddol cynhwysfawr ac adroddiad a oedd yn crynhoi'r prif ddyfarniadau ac amcangyfrifon.



27. Yn ôl ISA 260, mae gofyn i mi hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am unrhyw faterion sy'n codi o'm gwaith cyn i mi gyflwyno fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Gwnaeth arweinydd ymgysylltu'r archwiliad ariannol hysbysu pwyllgor archwilio a bwrdd y Bwrdd Iechyd am y materion hyn ar 2 Mehefin 2015. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion mwyaf amlwg a amlinellir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilydd
Perfformiad tâl y sector cyhoeddus	<p>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd y llynedd ynglŷn â'r gofynion adrodd yn erbyn targed Polisi Perfformiad Tâl y Sector Cyhoeddus (PSPP) ar gyfer talu credydwyr masnachol o fewn 30 diwrnod. Mae Atodiad 10 i Bennod 1 y Llawlyfr Cyfrifon yn nodi'n glir bod yn rhaid i fyrddau iechyd gynnwys taliadau a wnaed i gontractwyr gofal sylfaenol yn ei ffigurau.</p> <p>Nid yw'r system Caerwysg y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei defnyddio i brosesu taliadau gofal sylfaenol yn rhoi unrhyw wybodaeth ystadegol ynglŷn â sawl diwrnod a gymerwyd i wneud taliadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagdybio, felly, y bydd yr holl daliadau'n cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod, yn unol â gofynion y contract. Efallai bod data perfformiad PSPP ar gyfer y targed hwn ar gyfer taliadau GIG a rhai nad ydynt yn daliadau GIG yn Nodyn 7.1 wedi cael eu cam-ddatgan.</p> <p>Nid yw'r dyddiad yn cael ei stampio ar yr holl anfonebau a wneir â llaw wrth iddynt gael eu derbyn, felly nid oes modd cadarnhau p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' pan fydd yr anfoneb yn cael ei derbyn gan y Bwrdd Iechyd yn hytrach na phan fydd yn cyrraedd adran cyfrifon taladwy Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.</p>
Prynu cyfarpar tua diwedd y flwyddyn ariannol	<p>Prynodd y Bwrdd Iechyd nifer o eitemau cyfarpar tua diwedd y flwyddyn ariannol. Nid oedd cyfarpar gwerth tua £6 miliwn wedi'i ddsbarthu erbyn diwedd y flwyddyn, ac roedd disgwyl na fyddai rhai eitemau'n cael eu dosbarthu tan yn hwyrach yn 2015-16.</p> <p>Gall y Bwrdd Iechyd gyfalafu asedau nad ydynt wedi cael eu dosbarthu eto, ond mae'n rhaid iddo nodi bod perchenogaeth a hawl iddynt wedi cael eu trosglwyddo iddo, a'i fod yn rheoli'r ased hyd yn oed os nad yw'n ei ddefnyddio. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a chryfhau ei drefniadau ar gyfer breinio asedau. Yn benodol, er mwyn sicrhau bod rheolaethau awdurdodi presennol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth Haeddiannol, ac y cyfeirir yn benodol at y pwynt storio yn y cytundeb a lofnodwyd. At hynny, os oes rhagor o gyllid cyfalaf ar gael yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried ei gyfrifoldebau ehangach o dan Reoli Ariannol Cyhoeddus ynglŷn â thalu ymlaen llaw, a sicrhau y cydymffurfir â'r cyfrifoldebau hyn.</p>

Mater	Sylwadau'r archwilydd
Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	<p>Nodais rai pryderon ynglŷn ag ansawdd datganiad llywodraethiant blynyddol drafft y Bwrdd Iechyd, ac awgrymais nifer o ddiwygiadau a ymgorfforwyd i'r fersiwn derfynol.</p> <p>Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi nodi y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'i waith o asesu ei 'Fframwaith Sicrwydd Bwrdd'. Yn 2014-15, parhaodd y Bwrdd Iechyd i adolygu a datblygu ei 'Fframwaith Sicrwydd Bwrdd'; fodd bynnag, ni chynhyrchwyd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol tan ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Dylai'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol gael ei ystyried yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r gwaith o asesu pa mor effeithiol yw'r 'Fframwaith Sicrwydd Bwrdd'.</p>

- 28.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn mynnu bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyflwynais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i esbonio'r ddyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
- Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran adnoddau i fyrddau iechyd drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, ac mae hyn yn disodli'r ddyletswydd i fantoli eu cyfrifon dros gyfnod o un flwyddyn. Y cyfnod tair blynedd cyntaf o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-17, felly ni fydd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswydd hon yn cael ei fesur hyd 2016-17. O 2014-15 ymlaen, byddaf yn casglu camddatganiadau sydd heb eu cywiro o archwiliadau blynyddoedd 1, 2 a 3, ac yn ystyried eu heffaith gronol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswydd wrth iddi gael ei mesur ym mlwyddyn 3. Nodwyd nifer fach o wallau ansylweddol yn 2014-15.
  - Dyletswydd newydd yw'r ail ddyletswydd ariannol, sy'n mynnu bod yn rhaid i fyrddau iechyd baratoi cynllun integredig tymor canolig treigl tair blynedd, a chael hwn wedi'i gymeradwyo gan weinidogion Cymru. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd fodloni ei ail ddyletswydd ariannol i gael cynllun integredig tymor canolig tair blynedd ar waith ar gyfer y cyfnod 2014-15 hyd 2016-17. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Mai 2014.
- 29.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan – Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y wybodaeth gyfuno'n gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.
  - Adroddiad Tâl – Rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr Adroddiad Tâl wedi cael ei baratoi'n gywir yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a'r chyfarwyddiadau a wnaed yno gan weinidogion Cymru.

- 
- Datganiadau Ariannol Crynodeb ac Adroddiad Blynyddol – Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y datganiadau crynodeb yn gyson â'r datganiadau llawn, a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y cyfan. Yn ystod fy archwiliad, tynnais sylw at faterion yn ymwneud ag ansawdd yr Adroddiad Blynyddol drafft. Yn benodol, ni chafodd y datganiadau ariannol a archwiliwyd eu hadlewyrchu'n gywir yn yr amryw ddrafftiau o'r Adroddiad Blynyddol, ac roedd y drafft yn cynnwys nifer o wallau a hepgoriadau sylweddol.
- 30.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol elusen y Bwrdd Iechyd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yr ymddiriedolwr yn ystyried fy adroddiad drafft ynglŷn â'r datganiadau ariannol ym mis Ionawr 2016.

### Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamdatganiadau sylweddol i'r datganiadau ariannol

- 31.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, drwy adolygu'r amgylchedd rheoli er mwyn sicrhau ei fod yn darparu sicrwydd bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camdatganiadau sylweddol, boed hynny o ganlyniad i wallau neu dwyll. Mae'r amgylchedd rheoli'n cynnwys y swyddogaethau rheoli llywodraethu a rheoli, ac agweddau, ymwybyddiaeth, a gweithrediadau'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli yng nghyswllt rheolaeth fewnol yr endid a'i phwysigrwydd yn yr endid. Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol mewn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

### Roedd gweithgareddau rheolaeth y Bwrdd Iechyd a ystyriwyd gennym fel rhan o'r archwiliad wedi eu rheoli'n briodol ac yn gweithio fel y'u bwriadwyd, ond mae rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r rheolwyr weithredu yn eu cylch

- 32.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol mewn gweithgareddau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn archwilio. Fodd bynnag, rwyf wedi nodi gwendidau mewn rheolaethau awdurdodi'r Bwrdd Iechyd, ac mae angen eu gwella:
- Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd a'r Fframwaith Ymreolaeth Haeddiannol, mae gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo gwariant cyfalaf dros £500,000. Fodd bynnag, gwnaeth fy mhroffion sampl nodi bod dwy eitem o wariant cyfalaf dros £500,000 nad oeddent wedi cael eu cymeradwyo gan y bwrdd. Cymeradwyodd y cadeirydd yr eitemau gwariant cyfalaf hyn ar ran y bwrdd ar ôl iddynt ddigwydd, ar 3 Mehefin 2015. Cadarnhaodd y bwrdd weithrediadau'r cadeirydd ym mis Gorffennaf 2015.
  - Roedd y rhestr o lofnodwyr awdurdodedig a gyflwynwyd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru er mwyn cadarnhau bod anfonebau a wneir â llaw yn cael eu hawdurdodi'n gywir heibio ei dyddiad. Fel yr adroddwyd gan yr adran Archwilio Mewnol yn 2014, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod un gronfa ddata ganolog gyfredol ar waith sy'n nodi manylion yr holl lofnodwyr awdurdodedig, yn unol â'i Gynllun Dirprwyo a'i Fframwaith Ymreolaeth Haeddiannol.

- 
- 33.** Y llynedd, nodais nifer o wendidau sylweddol yn y trefniadau yng nghyswllt swyddogaeth gaffael y Bwrdd Iechyd, a weithredir drwy gydweithio â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Yn benodol, ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth weinidogol am nifer o gontractau dros £1 miliwn. Estynnodd rhai o'r contractau hyn i flwyddyn ariannol 2014-15, neu cawsant eu hestyn i 2014-15 heb gymeradwyaeth weinidogol. Ers y cyfnod hwnnw, mae'r Bwrdd Iechyd, drwy gydweithio â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Mae'r adran Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad manwl ac wedi rhoi 'sicrwydd rhesymol' ynglŷn â threfniadau caffael y Bwrdd Iechyd.
- 34.** Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2014-15, nododd yr adran Archwilio Mewnol y gall y Bwrdd Iechyd 'gael rhywfaint o sicrwydd bod y trefniadau i sicrhau bod llywodraethiant, rheolaeth risg, a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd sy'n cael eu hadolygu, wedi eu dylunio mewn modd addas ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol'. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd yr adran Archwilio Mewnol nifer o adroddiadau 'sicrwydd cyfyngedig', a wnaeth effeithio ar eu barn flynyddol gyffredinol. Nodwyd meysydd sylweddol i'w gwella yng nghyswllt llywodraethu clinigol a llywodraethu gwybodaeth. Ar gyfer archwilio systemau ariannol, fodd bynnag, cadarnhaodd yr adran Archwilio Mewnol fod trefniadau rheoli digonol ar waith.
- 35.** Nododd yr adran Archwilio Mewnol hefyd fod nifer o wendidau rheoli y mae angen camau gweithredu gan y rheolwyr yn eu cylch. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu i gryfhau'r gwendidau rheoli a nodwyd, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n dal i graffu ar gynnydd.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynildeb wrth ddefnyddio adnoddau

- 36.** Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn sicr bod gan gyrrff GIG drefniadau addas ar waith i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chynildeb o ran defnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd a wneir o ran cyflawni cynlluniau arbed costau, a'u cyfraniad at gyflawni cydbwysedd ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed ers y llynedd yn y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella;
  - defnydd penodol o adnoddau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, apwyntiadau ôl-driniaeth cleifion allanol, ac adolygiadau archwilio lleol, sy'n cynnwys capasiti TGCh; ac

- 
- asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol yng nghyswllt arlwyyo mewn ysbytai a maeth cleifion, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion gan archwiliadau allanol.

**37.** Mae crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

**Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ond mae pwysau gweithredol a methiant i nodi a darparu'r gostyngiadau cost sydd eu hangen yn golygu ei fod yn rhagweld diffyg o £23 miliwn, o gymharu â diffyg cynlluniedig o £13 miliwn ar ddiwedd 2015-16**

Roedd y pwysau ariannol yn gynyddol anghynaliadwy yn 2014-15, ac o ganlyniad i hyn methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni cydbwysedd ariannol yn unol â'i gynllun tymor canolig integredig cymeradwy, ac adroddwyd diffyg o £21 miliwn ar ddiwedd 2014-15

- 38.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf) wedi cyflwyno trefn gyllid fwy hyblyg. Mae'n cynnig dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd er mwyn i fyrddau Iechyd fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd ariannol yn hytrach na phob blwyddyn. Mae'r Ddeddf yn galluogi byrddau Iechyd lleol i ganolbwyntio eu gwaith cynllunio ariannol, eu gweithlu, a'u penderfyniadau ariannol a'u trefniadau gweithredu dros gyfnod hwy, sy'n fwy hydrin, ac mae hyn yn symud i ffwrdd o drefn sy'n annog gwneud penderfyniadau tymor byr yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn ddibynnol ar allu cyrff GIG i baratoi cynlluniau integredig tymor canolig sy'n ddigon cadarn, ac ar gael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y cynlluniau hynny gan weinidogion Cymru.
- 39.** Cymeradwyodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd, sy'n rhedeg o 2014-15 hyd 2016-17, ar 7 Mai 2014. Nododd y cynllun fwch o £15.5 rhwng ei ddsbarthiad adnoddau refeniw blynyddol a'i wariant net cynlluniedig ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn cynnwys ad-dalu'r gwariant dros ben yn 2013-14, sef £19.2 miliwn. Dangosodd y cynllun y byddai'r diffygion hyn yn cael eu hadennill gan symiau arian dros ben o £13.2 miliwn a £21.6 miliwn yn 2015-16 a 2016-17, yn y drefn honno.
- 40.** Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd, sef £15.5 miliwn, er mwyn cefnogi ei gynllun tair blynedd, a golygai hyn fod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu mantoli ei gyfrifon yn 2014-15. Drwy gydol y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd Iechyd roi sylw agos i'r alldro misol a nodwyd, ac i'r sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn. Ym mis Hydref 2014, gyda rhagor o bryderon ynghylch darparu'r gostyngiadau cost cynlluniedig a phwysau gweithredol sylweddol, newidiodd y Bwrdd Iechyd y sefyllfa ariannol yr oedd yn ei rhagweld ar gyfer diwedd y flwyddyn o fantoli'r cyfrifon i ddiffyg o £25.1 miliwn.

- 
41. Roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflawni gostyngiadau cost o £47.9 miliwn yn 2014-15. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau lleihau costau o £41.2 miliwn, a byddai'n rhaid i fyrddau clinigol gyflawni lleihad costau pellach o £6.7 miliwn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, cafodd y byrddau clinigol anawsterau o ran dod o hyd i ffyrdd o gyflawni'r lleihad ychwanegol hwn, ac ni chyflawnwyd rhai o'r gostyngiadau cost arfaethedig.
  42. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ni chyrrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei ddsbarthiad adnoddau refeniw blynyddol, gan orwario £21.4 miliwn, o ganlyniad i amrywiant gweithredol gwrthwynebus o £5.9 miliwn a thangyflawniad o ran gostyngiadau cost arfaethedig o £15.4 miliwn. Cyflawnwyd gostyngiadau cost o £27.8 miliwn o gymharu â tharged terfynol o £43.2 miliwn, a leihawyd i adlewyrchu cyllid ychwanegol yng nghyswllt cyflogau.

Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn eithriadol o anodd, a rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn yn 2015-16, er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn yn dilyn cadarnhad y bydd yn derbyn rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

43. Yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2015, gwnaeth y bwrdd gymeradwyo ei gynllun integredig tair blynedd o 2015-16 hyd 2017-18 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cymeradwyodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y cynllun hwn ar 6 Awst 2015, yn ddibynnol ar nifer o delerau ac amodau. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y telerau ac amodau hyn.
44. Mae gan y cynllun fwllch o £33.9 miliwn rhwng ei ddsbarthiad adnoddau refeniw a'i wariant net arfaethedig dros y tair blynedd. Mae hyn yn eithrio adennill y gwariant ychwanegol yn 2014-15, sef £21.4 miliwn. Mae hefyd yn eithrio adennill y gwariant ychwanegol yn 2013-14, sef £19.2 miliwn; cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 na fyddai'n rhaid adennill hwn bellach.
45. Ar gyfer 2015-16, nododd y Bwrdd Iechyd bwysau cost o £42 miliwn, ond pennwyd targed o £28.8 miliwn ar gyfer lleihau costau, ac roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn y byddai hyn yn fwy realistig a chyraeddadwy. Canlyniad hyn oedd bwllch arfaethedig o £13.2 miliwn. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau lleihau costau o £19.3 miliwn, a byddai'n rhaid i fyrddau clinigol gyflawni lleihad costau pellach o £9.5 miliwn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, mae byrddau clinigol wedi cael anawsterau unwaith eto o ran dod o hyd i ffyrdd o gyflawni'r lleihad ychwanegol hwn, ac ni chyflawnwyd rhai o'r gostyngiadau cost arfaethedig.
46. Ym mis Awst 2015, gyda phryderon parhaus ynghylch darparu'r gostyngiadau cost cynlluniedig a phwysau gweithredol sylweddol, newidodd y Bwrdd Iechyd y sefyllfa ariannol yr oedd yn ei rhagweld ar gyfer diwedd y flwyddyn o ddiffyg o £13.2 miliwn i ddiffyg o £23.2 miliwn.

- 
47. Ar ddiwedd mis Tachwedd 2015, gwnaeth y Bwrdd Iechyd nodi gorwariant o £14.9 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd at y dyddiad hwnnw, o gymharu â gorwariant yn ystod y flwyddyn hyd at y dyddiad hwnnw o £8.8 miliwn. Mae'r gorwariant ychwanegol yn ymwneud ag amrywiant gweithredol gwrthwynebus o £1.3 miliwn a thangyflawniad o ran gostyngiadau cost arfaethedig o £4.8 miliwn yn erbyn targed o £18.3 miliwn.
48. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £23.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae £4.1 miliwn o ostyngiadau cost heb eu nodi hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailasesu ei ragolwg diwedd y flwyddyn ym mis Rhagfyr 2015 yn dilyn cadarnhad o gyllid ychwanegol a thargedau perfformiad gan Lywodraeth Cymru.

**Mae'r Bwrdd wedi amlinellu gweledigaeth glir ac mae'n hybu diwylliant agored a thryloyw trwy drefniadau llywodraethu cadarn ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau pellach, gan gynnwys yr angen parhaus i gryfhau capasiti sefydliadol**

49. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynglŷn â llywodraethu a sicrwydd y bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:
- Cynllunio strategol
  - Strwythur sefydliadol
  - Sicrwydd bwrdd a rheolaethau mewnol
  - Llywodraethu gwybodaeth
  - Rheoli perfformiad

**Mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd yn darparu sail gadarn ar gyfer symud y sefydliad ymlaen, ond bydd cyflawni hyn yn ddibynnol ar p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei sefyllfa ariannol ac yn cydnabod effaith Cynllun De Cymru**

50. Yn 2014, nodais fod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull clir a chadarn o wneud gwaith cynllunio strategol, ond roedd y ffaith nad oedd y newidiadau'n cael eu cyflwyno'n gyflym a bod cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar gyflawni hyn. Cafodd cynllun tair blynedd diwygiedig y Bwrdd Iechyd ei gymeradwyo o'r diwedd ym mis Awst 2015, ond amlinellodd Llywodraeth Cymru nifer o amodau y mae disgwyl i'r Bwrdd Iechyd eu bodloni, gan gynnwys dangos gwelliannau clir o ran perfformiad, ei sefyllfa ariannol, a'r ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r cynllun tair blynedd yn parhau i gael ei yrru gan wasanaethau clinigol, mae'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac mae bellach wedi'i danategu gan ei strategaeth gwasanaethau clinigol 'Llywio ein Lles yn y Dyfodol', sy'n amlinellu cynlluniau clir ar gyfer nifer o wasanaethau allweddol. Fodd bynnag, byddai'n elwa ar ganolbwyntio mwy ar ofal sylfaenol, a hyd yn hyn nid yw wedi rhoi digon o fanylion ynglŷn ag effeithiau rhaglen De Cymru.

- 
- 51.** Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad bob chwe mis ynglŷn â gweithredu'r cynllun tair blynedd, ac mae ganddo gynlluniau cynnar ar waith i adolygu'r adroddiad perfformiad i adlewyrchu'r pedwar amcan strategol allweddol a amlinellwyd yn ei 'fap strategol'. Mae ganddo ddull clir hefyd ar gyfer diweddaru'r cynllun tair blynedd yn unol â dyddiadau cau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd cyllid yn parhau i effeithio ar gyflawni'r cynllun, a bydd dibyniaeth ar gyflawni pob un o'i dargedau arbedion arfaethedig. Mae'r Bwrdd ei hun wedi cydnabod bod hon yn risg sylweddol, ac mae angen cyllid ychwanegol o £41.7 miliwn er mwyn sicrhau bod asedau'r Bwrdd lechyd yn addas i'r diben.

**Mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn parhau i aeddfedu, gyda thystiolaeth o weithlu brwdfrydig a gwybodus, ond mae capasiti mewn rhai swyddogaethau corfforaethol, a'r ffaith bod staff yn gweithio dros dro ar rai lefelau drwy'r sefydliad, yn parhau i gyflwyno heriau**

- 52.** Gwnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig blaenorol nodi bod y strwythur sefydliadol yn aeddfedu, ond roedd nifer o risgiau a oedd yn effeithio ar ei effeithiolrwydd i gefnogi'r ddarpariaeth weithredol. Yn ystod 2015, mae fy nhîm wedi nodi bod byrddau clinigol yn aeddfedu, a phan fo pryderon ynghylch capasiti a gallu, mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu dull aeddfed o ddarparu ymyrraeth a chymorth. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cael bylchau sylweddol yn strwythur ei weithrediaeth, ond mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol dros dro a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at redeg y sefydliad. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae hyn wedi rhoi pwysau gwaith ychwanegol ar swyddogion presennol y weithrediaeth, ac mae presenoldeb y weithrediaeth yng nghyfarfodydd y bwrdd clinigol, lle mae'n gweithredu fel 'aelod annibynnol', wedi amrywio. Dechreuodd Cyfarwyddwr Cyllid ar wahân ym mis Rhagfyr 2015.
- 53.** Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynyddu ei gapasiti o fewn nifer o swyddogaethau corfforaethol a oedd yn destun pryder yn flaenorol, ond mae lefelau staffio mewn nifer o swyddogaethau corfforaethol eraill, gan gynnwys ystadau, TGCh a phrofiad y claf yn dal i fod yn isel. Rwyf yn dal i bryderu ynghylch y lefel isel o gapasiti o fewn y tîm llywodraethu, yn enwedig o ystyried y ffaith bod aelod arall o'r tîm wedi gadael yn ddiweddar.
- 54.** Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen datblygu ei gapasiti a'i allu, ac mae enghreifftiau cadarnhaol o ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth ac o ennyn diddordeb y staff ym mhob agwedd ar y busnes. Mae arolwg staff diweddar wedi nodi gwelliannau cadarnhaol o ran y lefel y mae'r staff yn ymgysylltu dros y 12 mis diwethaf, ond mae bylchau o hyd yn nhîm uwch reolwyr y bwrdd clinigol a'i gyfarwyddiaethau, gyda nifer o staff yn gweithio dros dro mewn swyddi er mwyn datrys problemau yn y tymor byr.



---

Mae effeithiolrwydd, sicrwydd a rheolaethau mewnol y bwrdd yn dal i gael eu cryfhau, ac ar y cyfan maent yn effeithiol, er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd

55. Mae'r Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth ac ymddygiad strategol da. Mae ganddo weinyddiaeth dda, ac mae'r holl ofynion trefniadol ffurfiol yn cael eu bodloni yng nghyswllt diweddarau ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Reolau Sefydlog, ac eithrio'r adolygiad ffurfiol o'r Cynlluniau Dirprwyo a'r Fframwaith Ymreolaeth Haeddiannol, a ohiriwyd nes bod Cyfarwyddwr Cyllid ar wahân wedi'i benodi. Mae'r Bwrdd yn ymdrechu i flaenoriaethu profiad y claf. Mae'n eithriadol o agored a thryloyw, ac mae'n cael trafodaethau agored a gonest pan fo pethau wedi mynd o'u lle, ond mae hefyd yn neilltuo amser ar gyfer cydnabod ymrwymiad ac arloesedd ei staff.
56. Mae strwythur y pwyllgor yn cefnogi llywodraethiant da – cynhelir pob cyfarfod yn gyhoeddus, parheir i ddefnyddio'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i lywio'r broses o bennu'r agenda, a defnyddir cynlluniau gwaith clir er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r Bwrdd mewn modd priodol. Mae trefniadau cyfathrebu gwell rhwng pwyllgorau, ac mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn parhau i ddarparu lefelau da o sicrwydd ynglŷn â diogelwch gwasanaethau. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad wedi gwella rhywfaint, mae cyfle i fireinio strwythur yr agenda ymhellach, ac i ehangu'r gwaith craffu a herio a wneir yng nghyswllt cynlluniau i gynnwys y cynllun tair blynedd.
57. Ers fy asesiad strwythuredig blaenorol, mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu Llyfr y Bwrdd, sy'n helpu i symleiddio papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Yn gyffredinol, mae'r papurau wedi eu hysgrifennu'n dda, ac maent yn ymdrin ag amrywiaeth o wybodaeth y mae aelodau annibynnol yn eu trioglu'n rheolaidd yn erbyn ffynonellau eraill o wybodaeth.
58. Mae trefniadau rheoli risg wedi parhau i gael eu cryfhau ar lefel y bwrdd a'r weithrediaeth, ac mae Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol a adolygir yn rheolaidd, a pherchenogaeth glir ar lefel y weithrediaeth. Mae rheolaethau mewnol yn gyffredinol yn effeithiol o ran bodloni gofynion sicrwydd presennol. Fodd bynnag, mae cofrestru risg yn dal i amrywio o fewn byrddau clinigol a chyfarwyddiaethau, ac mae'r capasiti o fewn y tîm llywodraethu i helpu gwasanaethau clinigol i nodi a rheoli risgiau'n dal i fod yn destun pryder.
59. Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i ddiogelu a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ac ymateb i argymhellion a wneir fel rhan o'm rhaglen waith archwilio leol dan fandad cenedlaethol yn 2015. Mae'r gwaith hwn wedi canfod bod trefniadau effeithiol ar waith, yn gyffredinol, i reoli ac ymateb i argymhellion archwiliadau, ond nid yw'r holl gynlluniau gweithredu'n cael eu monitro nes iddynt gael eu cwblhau, ac er bod cynlluniau gweithredu mewnol yn nodi bod camau gweithredu wedi eu cwblhau, nododd fy ngwaith dilynol ynglŷn ag arlwyio mewn ysbytai a maeth cleifion nad oedd hyn bob amser yn wir.

---

Mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, ond mae trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau rhoi'r sicrwydd sydd ei angen

**60.** Nododd fy adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh fod gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad cadarnhaol at TGCh, a thrwy fy ngwaith asesu strwythuredig, mae fy nhîm wedi nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth bellach yn dechrau rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â materion llywodraethu gwybodaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith llywodraethu gwybodaeth, ac mae polisïau ac arferion allweddol bellach ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu perthynas agored a thryloyw gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae ganddo systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli achosion o dorri diogelwch gwybodaeth. Fodd bynnag, mae llywodraethu gwybodaeth yn dal i fod yn risg uchel i'r Bwrdd Iechyd, ac mae pryderon penodol ynglŷn â rheoli'r cofnod iechyd, ac er bod grŵp data wedi'i sefydlu'n flaenorol, mae cynnydd â'r agenda ansawdd data wedi bod yn araf. Mae hyn yn bennaf gan fod y Bwrdd Iechyd wedi bod heb dîm gweithredol llawn.

Caiff y bwrdd ei hysbysu mewn modd priodol ynglŷn â'i berfformiad, ond mae cyfleoedd i wneud mwy o waith craffu yn ei bwyllgor perfformiad, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddangos ei fod yn gwella yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol

- 61.** Gwnaeth fy ngwaith asesu strwythuredig blaenorol nodi bod y trefniadau perfformiad wedi cael eu cryfhau, a bod ffocws penodol ar y pum prif flaenoriaeth, ond roedd rhai gwasanaethau'n dechrau ymddieithrio, ac roedd angen i'r sefydliad fod yn fwy echblyg o ran herio ei berfformiad a'i ddarpariaeth. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi parhau i graffu ar ei berfformiad mewn modd effeithiol. Mae pob bwrdd clinigol bellach yn destun adolygiad perfformiad gweithredol misol, ond gellid cryfhau'r trefniadau ymhellach drwy ddiweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad, a fyddai'n helpu i gau'r bwch sy'n bodoli rhwng y pwyllgor hwn, y bwrdd, a'i wasanaethau clinigol.
- 62.** Mae'r adroddiad perfformiad i'r Bwrdd yn cynnwys sawl agwedd gadarnhaol, megis defnyddio cerdyn sgorio i gyflwyno crynodeb o'r cynnydd, cymysgedd da o wybodaeth ansoddol a meintiol, cynnwys tueddiadau a thargedau, ac adborth ynglŷn â phrofiad y claf. Fodd bynnag, mae lle o hyd i ystyried gwelliannau pellach, a allai cynnwys integreiddio perfformiad a chyllid i un adroddiad, gan ehangu cwmpas yr adroddiad er mwyn iddo ymdrin â holl weithgarwch y Bwrdd Iechyd, a nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd.
- 63.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos gwelliant cadarnhaol yn ei berfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol, ond mae cydymffurfiaeth â nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gofal heb ei drefnu, amseroedd aros canser, a'r sefyllfa ariannol, yn dal i fod yn problemus.

---

Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi canfod enghreifftiau o arfer da a datblygiadau cadarnhaol, mae cyfleoedd hefyd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid, ac mae'n dangos ymgysylltiad cymunedol a gwaith partner cryf, ac mae wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yng nghyswllt cynllunio ei weithlu, ond erys risgiau ynghylch ystadau

- 64.** Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi adolygu sut mae nifer o elfennau allweddol sy'n ei wneud yn bosibl defnyddio adnoddau mewn modd effeithiol, effeithlon a chynnil yn cael eu rheoli. Mae'r gwaith wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd sy'n ymwneud â rheoli adnoddau y tynnais sylw atynt mewn asesiadau strwythuredig blynyddoedd blaenorol, ond nid yw wedi ymateb yn effeithiol i'w risgiau ystadau eto, nac adeiladu digon o gapasiti TGCh ychwaith. Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: Aseiad Strwythuredig – elfennau allweddol sy'n ei wneud yn bosibl i ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithiol

Mater	Crynodeb canfyddiadau
Newid capasiti rheoli	Mae rhaglenni newid strategol yn dechrau tanategu'r cynllun tymor canolig integredig, ac mae hyn wedi'i gefnogi gan ddiwylliant cadarnhaol i wella, ond mae camau gweithredu i yrru newidiadau yn aml yn dibynnu ar gymorth allanol a gomisiynir gan y Bwrdd Iechyd.
Cynllunio'r gweithlu	Cymerir camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â heriau yn y gweithlu, a gwnaed gwelliannau yn ystod y 12 mis diwethaf yng nghyswllt absenoldeb salwch, y broses recriwtio, a chydymffurfiaeth ag arfarniadau ac adolygiadau datblygu. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i gynnal y momentwm i ysgogi gwelliannau yn ystod y cyfnod cyn penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ar wahân newydd.
Ystadau ac asedau	Mae cyflwr yr ystâd yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r cynnydd a wneir i leihau'r risg hon yn isel. Mae angen lefel sylweddol o fuddsoddiad i wella ei chyflwr, ac mae'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i ymateb i risgiau uniongyrchol yn hytrach na gwaith cynnal a chadw tymor hwy. Mae capasiti o fewn y tîm ystadau yn dal i fod yn her, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod swyddi ystâd yn anodd eu llenwi, ac erbyn hyn nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â nifer o ofynion statudol.
Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth	Gan adeiladu ar yr arferion da a welsom mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad sylweddol i ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion, staff a rhanddeiliaid, ac at barhau i ddatblygu gwaith partneriaeth.
Defnydd o dechnoleg	Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth yn effeithiol, ac mae enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio technoleg yn arloesol. Fodd bynnag, mae'r lefel bresennol o fuddsoddiad mewn TGCh yn peri risg – lefelau capasiti a lefelau staffio'r Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru.

Mae cryfderau o ran sut mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli meddyginiaethau, ond mae hefyd lle i wella mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'r dull strategol, cyfleusterau storio, trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau, a monitro perfformiad

- 
- 65.** Gwnaeth fy adolygiad o drefniadau rheoli meddyginiaethau ddilyn gwaith archwilio blaenorol a wnaed gan fy nhîm ynglŷn â rhagnodi gan wasanaethau gofal sylfaenol. Canolbwyntiodd ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Gwnaeth y gwaith ymdrin â gwybodaeth am feddyginiaethau a ddarparwyd gan feddygon teulu i gefnogi derbyniadau, adolygiadau meddyginiaeth y mae cleifion yn eu derbyn yn ystod eu harhosiad, y cymorth y mae cleifion yn ei dderbyn i gymryd eu meddyginiaethau, a'r trefniadau i sicrhau rheolaeth dda o feddyginiaethau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- 66.** Canfu fy adolygiad fod arweinyddiaeth weithredol glir, gwaith monitro ariannol rheolaidd, ac ymgysylltiad clinigol gwell yn y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau newydd, ond mae lle i wella proffil fferylliaeth, i wneud atebolrwyddau'n fwy clir, ac i gryfhau'r strategaeth. Nododd fy nhîm fod risgiau'n gysylltiedig â chael gweledigaethau ar wahân ar gyfer gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strategaeth rheoli meddyginiaethau hyd yn hyn. Yn debyg i fyrddau iechyd eraill, mae rôl y tîm fferylliaeth mewn penderfyniadau'n gyfyngedig, ac er bod gwaith craffu rheolaidd o wybodaeth ariannol, mae'r cynllun arbedion meddyginiaethau'n tanberfformio.
- 67.** Mae cost staff fferylliaeth fesul diwrnod gwely yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, ac mae pwysau gwaith yn debyg i weddill Cymru, ond mae angen mynd i'r afael â phwysau gwaith canfyddedig, a chryfhau cynllunio ar gyfer olyniaeth. Gellid clustnodi mwy o adnoddau ar gyfer hyfforddiant, ac er bod perthynas dda rhwng staff fferylliaeth a staff y ward, a chyfran uchel o wardiau â staff fferylliaeth penodol, mae lle i wella mynediad at y tîm fferylliaeth y tu allan i oriau arferol.
- 68.** Ar y cyfan, mae'r cyfleusterau fferylliaeth yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol, ond mae problemau o ran lle ar gyfer storio a lleoliad yr adran fferylliaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac o ran rheoleiddio tymheredd storfeydd swmp yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Rhoddwyd gradd risg ganolig i'r uned aseptig gan arolygwyr allanol, ac, yn debyg i weddill Cymru, nid yw'r gwaith o baratoi meddyginiaethau ar gyfer chwistrellu ar y wardiau'n cael ei archwilio'n rheolaidd. Hyd yn hyn, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â storio meddyginiaethau ar wardiau, y tynnwyd sylw atynt mewn hapwiriadau Ymddiried mewn Gofal, ac mae angen cryfhau trefniadau monitro tymheredd oergelloedd a diogelwch meddyginiaethau a fydd yn cael eu dychwelyd i'r adran fferylliaeth.

- 
- 69.** Nododd fy nhîm fod gan brosesau rheoli'r Bwrdd Iechyd rai cryfderau, ond mae risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, amseroldeb gwaith cysoni, rhagnodi anfeddygol, a chynorthwyo cleifion i gymryd eu meddyginiaethau'n gywir. Mae prosesau fformiwlâu'r Bwrdd Iechyd yn unol â gweddill Cymru, ond oherwydd nad oes system ragnodi electronig mewn gofal eilaidd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael anawsterau o ran monitro cydymffurfiaeth fformiwlari, ac mae meddygon yn nodi bod mwy o broblemau o ran cael mynediad at Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau gweithredu uniongyrchol mewn ymateb i Ymddiried mewn Gofal, a gwelsom pan nad oedd cleifion yn derbyn eu meddyginiaethau fod y rhesymau dros beidio â'u gweinyddu'n cael eu cofnodi'n dda ar y cyfan, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud llawer mwy i asesu a chefnogi anghenion cydymffurfiaeth cleifion, ac nid yw'r llinell gymorth meddyginiaethau'n cael ei defnyddio'n dda.
- 70.** Nododd fy nhîm fod cwmpas i gryfhau adrodd ar berfformiad trwy feincnodi ac ystyried dangosyddion perfformiad yn fwy rheolaidd. Mae cyfradd y derbyniadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith i ddeall y rhesymau dros ymyriadau diogelwch y tîm fferylliaeth. Ceir tystiolaeth gymysg am effeithiolrwydd y prosesau dysgu ac efallai na fydd aelodaeth o'r Grŵp Arfer Meddyginiaethau Diogel newydd yn ddigon eang i sicrhau bod dysgu'n cael ei ledaenu'n ddigonol.

**O fan dechrau anodd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ddarganfod maint yr angen am ôl-driniaeth ymysg ei gleifion allanol, ond mae gormod o gleifion yn profi oedi, mae'r duedd yn gwaethygu, ac mae angen iddo wneud llawer mwy i ddatblygu gwasanaethau ôl-driniaeth cleifion allanol sy'n gynaliadwy**

- 71.** Mae pryder mewn amgylchedd sy'n gyfyngedig o ran adnoddau bod llai o sylw'n cael ei roi i apwyntiadau dilynol oherwydd y ffocws ar sicrhau apwyntiadau cyntaf i gyflawni targedau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mewn rhai byrddau Iechyd, mae hyn wedi arwain at ôl-gronni, ynghyd â'r risgiau cysylltiedig i ansawdd gofal. Yn ystod 2015, cwblhaodd fy nhîm adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol i asesu sut roedd y risgiau hyn yn cael eu canfod, eu rheoli a'u lleihau ledled Cymru.
- 72.** Nododd fy adolygiad fod y Bwrdd Iechyd wedi dangos ei fod yn deall gofynion safonol data Llywodraeth Cymru'n dda a'i fod yn gwella'r amrywiaeth o wybodaeth reoli sydd ar gael am apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Mae hefyd wedi mabwysiadu dull pragmatig o ddilysu ei restr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol, ond mae angen rhagor o waith i asesu risgiau clinigol i gleifion sy'n aros y tu hwnt i'w dyddiad targed.
- 73.** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi lleihau nifer y cleifion sydd heb ddyddiad targed ar ei restr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol, mae ganddo nifer sylweddol a chynyddol o gleifion sydd ag angen clinigol hysbys sydd wedi profi oedi. Fe nododd fy nhîm hefyd nad yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n derbyn digon o wybodaeth i roi sicrwydd am oediadau o ran apwyntiadau dilynol cleifion allanol ac a yw cleifion yn cael niwed yn ystod yr oediadau.

- 
74. Os caiff ei roi ar waith yn gywir, dylai cynlluniau tymor byr y Bwrdd lechyd gynorthwyo i wella rheoli rhestrau aros apwyntiadau dilynol, ond mae angen gwneud mwy i leihau nifer y cleifion sy'n profi oedi wrth dderbyn apwyntiad dilynol. Nododd fy adolygiad er bod rhai arbenigeddau'n trawsnewid modelau gwasanaeth cleifion allanol, nid yw'r Bwrdd lechyd yn cynllunio gwasanaethau cleifion allanol sy'n gynaliadwy yn effeithiol hyd yma.

Mae'r Bwrdd lechyd yn symud ymlaen gyda llawer o'r materion a godwyd yn fy adolygiadau blaenorol, er nad yw'r holl gynlluniau gweithredu'n cael eu monitro, ac mae adolygiad mwy manwl o fy argymhellion blaenorol ar gyfer arlwygo ysbytai a maeth cleifion wedi nodi bod angen cynnydd pellach yn y maes hwn

75. Yn ogystal ag adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau cyffredinol y Bwrdd lechyd mewn ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'm rhaglen a awdurdodir yn genedlaethol a'r rhaglen leol o waith archwilio fel y trafodwyd ym [mharagraff 59](#), mae fy ngwaith wedi canfod bod cynnydd da yn cael ei wneud mewn perthynas ag argymhellion archwilio ac mae llawer ohonynt wedi cael eu cwblhau yn brydlon, ond oherwydd bod rhai argymhellion nad ydynt bob amser yn cael eu dilyn trwy'r pwyllgorau, yn arbennig mewn perthynas â'm hargymhellion mewn perthynas â nyrsys ardal, ni allaf nodi a yw camau gweithredu'n cael eu cymryd yn sgil fy holl argymhellion.
76. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi ymgymryd â gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynnydd mae'r Bwrdd lechyd wedi ei wneud wrth roi sylw i bryderon ac argymhellion sy'n codi o'r gwaith archwilio blaenorol ar arlwygo ysbytai a maeth. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn [Arddangosyn 3](#).

---

### Arddangosyn 3: Cynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliadau

#### Casgliadau a chanfyddiadau allweddol archwiliadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth roi sylw i argymhellion i wella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar y broses sgrinio maethgol, i ymgysylltu â'r holl staff nyrsio ar adeg prydau bwyd cleifion, ac i gau'r bwlch rhwng cost gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion a'r incwm a gynhrychir.

Canfu fy nhîm y canlynol:

- Mae trefniadau ar gyfer bodloni anghenion diet a maeth cleifion yn parhau i wella, ond mae angen cryfhau prosesau sgrinio a dogfennau:
  - er bod cleifion yn cael eu sgrinio'n faethgol, nid yw pob claf yn cael ei bwysu, nid oes cynlluniau gofal ar waith neu'n cael eu dilyn bob amser, ac mae bylchau yn y wybodaeth sgrinio'n creu risg posibl o wanhau ansawdd y broses;
  - caiff cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethgol ei asesu a'i hysbysu'n rheolaidd, yn lleol ac yn gorfforaethol, a chymerir camau gweithredu i roi sylw i ddiffygion yn y broses sgrinio;
  - mae trefniadau presennol yn sicrhau bod gan y cleifion fynediad at fwyd a diodydd 24 awr y dydd ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd;
  - caiff eitemau ar y fwydlen eu hasesu'n faethgol trwy fframwaith bwydlen Cymru gyfan y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef; ac
  - mae gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn yr ysbyty yn gyfyngedig.
- Mae cwmipas ar gyfer gwella amseroedd prydau bwyd i rai cleifion:
  - mae cleifion yn gadarnhaol am wasanaethau bwyd ar y cyfan, ond nid oes digon o ddewis i rai cleifion;
  - mae cymorth a goruchwyliaeth gan nyrsys ar adeg prydau bwyd yn gyfyngedig ar rai wardiau; ac
  - mae egwyddorion amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu wedi eu hymgorffori'n fwy eang nag o'r blaen.
- Mae cost gwasanaethau arlwyo ar gyfer cleifion yn cael ei rheoli'n well, ond mae'r incwm gan wasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn dal i fod yn annigonol:
  - mae cost gwasanaethau arlwyo ar gyfer cleifion yn lleihau, ac mae'r gost am bob pryd i glaf yn cymharu'n ffafriol â chyrrff eraill y GIG;
  - mae canllawiau clir am yr hyn sy'n gwneud prydau heb eu gweini a gwastraff plât, ac mae gwastraff heb ei weini yn is na'r targed cenedlaethol; ac
  - mae gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion yn dal i redeg ar golled, ond mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn lleihau.
- Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro a hysbysu am wasanaethau arlwyo a maeth ysbytai yn gadarn ar y cyfan:
  - mae trefniadau sefydledig trwy gyfrwng y Grŵp Llywio Maeth ac Arlwyo i sicrhau bod polisïau a safonau cenedlaethol yn cael eu gweithredu;
  - mae trefniadau corfforol sefydledig ar gyfer monitro'r llwybr gofal maethgol ac ansawdd bwyd, ond nid yw gwybodaeth ar wastraff a chostau mor ddichonadwy; ac
  - mae systemau effeithiol ar waith i gael adborth gan gleifion am arlwyo a maeth a gweithredu yn ei sgil.



# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Adroddiadau archwiliad ariannol</b>	
Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol	Mehfin 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehfin 2015
Archwiliad Datganiadau Ariannol – Cynllun Gweithredu (materion eraill)	Tachwedd 2015
Adroddiad Blynyddol – Cynllun Gweithredu	Tachwedd 2015
<b>Adroddiadau archwiliad perfformiad</b>	
Adolygiad o Reolaeth Meddyginiaethau	Mehfin 2015
Adolygiad o Apwyntiadau Ôl-driniaeth Cleifion Allanol	Hydref 2015
Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh	Tachwedd 2015
Adolygiad Dilydol o Arlwyo Ysbytai a Maeth Cleifion	Hydref 2015
Asesiad Strwythuredig 2015	Rhagfyr 2015
<b>Adroddiadau eraill</b>	
Cynllun Archwilio 2015	Mawrth 2015

Mae hefyd nifer o archwiliadau perfformiad yn y Bwrdd Iechyd sy'n dal i fynd rhagddynt. Dangosir y rhain isod, gydag amcan o'r dyddiadau ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Adolygiad o Theatrau Llawdriniaeth	Ionawr 2016
Adolygiad Dilydol o Gontract Ymgynghorydd	Mehfin 2016
Adolygiad o Ystadau	Mawrth 2016
Adolygiad Dilydol o Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal	Ebrill 2016
Adolygiad o Wasanaethau Radioleg	Awst 2016

# Atodiad 2

---

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2015 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £430,892. Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o waith yn dal i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Mae'r gwaith archwilio yr ymgwymerwyd ag ef mewn perthynas â'r cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi ei gynnwys yn y ffi a nodir uchod.

# Atodiad 3

## Prif risgiau archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio 2015 yn nodi'r prif risgiau o ran archwilio ariannol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau amgylchedd rheoli</b>		
Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd lechyd i sicrhau bod cofnodion cyfrifo cadarn a rheolau mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.	Bydd fy nhîm archwilio'n profi'r cofnodion cyfrifo a rheolau mewnol sydd ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.	Rwyf wedi adolygu cofnodion cyfrifo ac asesu rheolau mewnol, ac ni chanfûm unrhyw broblemau materol i'w hysbysu.
Mae'r risg bod <b>rheolwyr yn diystyru</b> rheolau'n bodoli ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai diystyriaeth o'r fath ddigwydd, fe'i gwelir fel risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio: <ul style="list-style-type: none"><li>yn profi pa mor briodol yw cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li><li>adolygu tueddiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo; a</li><li>gwerthuso'r sail resymegol am unrhywbeth arwyddocaol.</li></ul>	Adolygais sampl o drafodion ac ni nodais unrhyw broblemau i'w hysbysu.
Mae risg ym mhob archwiliad o gamddatganiad materol oherwydd twyll wrth adnabod referniw a chaiff ei drin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27], oni bai bod y dybiaeth hon yn cael ei gwrthbrofi'n benodol.	Bydd fy nhîm archwilio'n ystyried ffrydiau incwm y Bwrdd lechyd ac yn asesu a oes risg o gamddatganiad materol oherwydd twyll sy'n ymwneud ag adnabod referniw. Mewn achosion lle mae risgiau o'r fath yn bresennol, bydd profion penodol yn cael eu cynnal ar amseriad a gwerth y referniw.	Ystyriais ffrydiau incwm y Bwrdd lechyd. Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol.
Cafodd system gyfrifyddu Oracle 12 ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2014. Mae risg i uniondeb y balansau a drosglwyddwyd i'r system gyfrifyddu newydd.	Bydd fy nhîm archwilio'n asesu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Bwrdd lechyd i sicrhau bod balansau a gofnodwyd yn natganiadau ariannol ardystiedig 2013-14 yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y system gyfrifyddu newydd.	Adolygais y balansau agoriadol a gofnodwyd yn y system gyfrifyddu newydd ac ni nodais unrhyw broblemau.

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau amgylchedd rheoli</b>		
<p>Mae fy mhrofion archwilio yn y blynyddoedd blaenorol wedi nodi gwendidau yn y trefniadau ar gyfer <b>swyddogaeth gaffael</b> y Bwrdd lechyd; y benodol, bu achosion pan na chafwyd cymeradwyaeth gan y Gweinidog ar gyfer yr holl gontractau neu estyniad i gontractau o dros £1 miliwn.</p> <p>Os na chafwyd cymeradwyaeth ar gyfer contractau o'r fath, mae risg i'r safbwynt rheoleidd-dra.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n asesu trefniadau caffael y Bwrdd lechyd ac yn cynnal profion penodol i gael sicrwydd am reoleidd-dra trafodion.</p>	<p>Cynhaliais brofion penodol yn y maes hwn a rhoddais fy ffydd yng ngwaith Archwiliad Mewnol. Hysbysais am rai problemau fel y nodir ym mharagraff 33.</p>
<b>Risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon</b>		
<p>Efallai bod risg y bydd y Bwrdd lechyd yn methu â bodloni <b>dyletswyddau ariannol statudol</b>. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd y dyletswyddau ariannol statudol hynny, ac mae Llywodraeth Cymru i fod i gyhoeddi canllawiau'n fuan.</p> <p>Roedd y sefyllfa ym mis 10 yn dangos diffyg bryd hynny yn y flwyddyn o £21.053 miliwn, a rhagwelwyd diffyg diwedd blwyddyn o £24.9 miliwn.</p> <p>Gallaf ddewis cyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n egluro unrhyw fethiannau a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiannau hynny.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd lechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcanion rheolwyr fod yn dueddol mewn ymgais i gyflawni unrhyw ddyletswyddau ariannol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n ystyried ffocws ei brofion a goblygiadau eraill i'n gwaith unwaith y bydd dyletswyddau ariannol wedi cael eu hesbonio.</p>	<p>Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn mynnu bod yn rhaid i'r Bwrdd lechyd fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol newydd. Cyflwynais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio i esbonio'r dyletswyddau newydd, perfformiad y Bwrdd lechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.</p> <p>Mae'r <b>ddyletswydd ariannol gyntaf</b> yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran adnoddau i fyrddau iechyd drwy eu galluogi i fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, ac mae hyn yn disodli'r ddyletswydd i fantoli eu cyfrifon dros gyfnod o un flwyddyn. Y cyfnod tair blynedd cyntaf o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd 2016-17, felly ni fydd perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn y ddyletswydd hon yn cael ei fesur hyd 2016-17.</p>

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon</b>		
		<p>Yr <b>ail ddyletswydd ariannol</b> yw'r ddyletswydd newydd sy'n mynnu bod yn rhaid i fyrddau iechyd baratoi cynllun integredig tymor canolig treigl tair blynedd, a chael hwn wedi'i gymeradwyo gan weinidogion Cymru. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd fodloni ei ail ddyletswydd ariannol i gael cynllun integredig tymor canolig tair blynedd ar waith ar gyfer y cyfnod 2014-15 hyd 2016-17. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Mai 2014.</p>
<p>Hyd nes y ceir canllawiau gan Lywodraeth Cymru, fe all risg debyg fod yn bresennol mewn perthynas â'r <b>terfyn adnoddau cyfalaf</b>.</p> <p>Roedd y sefyllfa ym mis 10 yn dangos diffyg bryd hynny yn y flwyddyn o £0.719 miliwn, a rhagwelwyd gorwariant diwedd blwyddyn o £6.953 miliwn, er bod hyn yn berthnasol i wariant ar gynlluniau penodol a phrynu offer meddygol lle mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am gadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcanion rheolwyr fod yn dueddol mewn ymgais i gyflawni unrhyw ddyletswyddau ariannol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n ystyried ffocws ei brofion a goblygiadau eraill i'n gwaith unwaith y bydd dyletswyddau ariannol wedi cael eu hesbonio.</p>	<p>Gweler y sylwadau uchod.</p>

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon</b>		
<p>Mae meysydd risg penodol y byddwn yn eu hadolygu yn dilyn archwiliadau'r blynyddoedd blaenorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae risg i ymdriniaeth gywir a chyson o ailbriso dyrchafol o gyfarpar, eiddo ac offer o ganlyniad i fynegeio, yn dilyn yr ansicrwydd yn 2013-14 ynghylch ei gymhwyso o ran adeiladau newydd.</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd risg hyn, trwy gynnal profion penodol.</p>	<p>Asesais drefniadau'r Bwrdd Iechyd a chynhaliâs brofion penodol priodol. Nodais un mater i'w hysbysu, mewn perthynas â datgeliadau polisi tâl y sector cyhoeddus – gweler <a href="#">Arddangosyn 1</a>.</p>
<b>Risgiau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r GIG yng Nghymru wedi derbyn nifer sylweddol o Achosion Gofal Iechyd Parhaus, ac mae hyn yn cynyddu'r risg o gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch lefel atebolrwydd y Bwrdd Iechyd.</li> </ul> <p>Mae risg i ddatgeliadau Polisi Tâl y Sector Cyhoeddus, yn dilyn pryderon a hysbyswyd y llynedd na chydymffurfiwyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2014-15, mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o gwrdd â'i dargedau Polisi Tâl y Sector Cyhoeddus oherwydd y nifer fawr o anfonebau sy'n 'aros' ac felly nad ydynt ar gael i'w talu.</p>		

Prif risg archwilio	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<b>Risgiau datganiadau ariannol</b>		
<p>Mae'r <b>amserlen</b> ar gyfer cynhyrchu ac ardystio'r <b>cyfrifon blynyddol</b> yn dal i fod yn heriol. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd roi trefniadau priodol ar waith i baratoi'r cyfrifon a sicrhau bod papurau gweithio digonol yn cael eu darparu i'w harchwilio'n brydlon.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n agos gyda staff y Bwrdd lechyd i fonitro cynnydd a cheisio datrys unrhyw broblemau o ran amseru cyn gynted â phosibl er mwyn gallu ardystio'r cyfrifon yn unol â'r amserlen.</p>	<p>Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni a chawsant eu hategu gan bapurau gweithio da. Ni nodais unrhyw broblemau i'w hysbysu.</p>
<b>Risgiau datganiadau ariannol</b>		
<p>Caiff y <b>cyfrifon blynyddol</b> eu llunio'n unol â <b>Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG</b>. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd gael dealltwriaeth lawn o'r <b>gofynion</b> hyn, gan ymateb i newidiadau a sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â risgiau a phroblemau mewn modd priodol.</p> <p>Dyma rai meysydd risg penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amcangyfrifon, yn enwedig ar gyfer darpariaeth gofal iechyd barhaus, gwariant ar ofal sylfaenol, a gwasanaethau arbenigol;</li> <li>• trafodion sylweddol â phartïon perthynol;</li> <li>• cywirdeb a chyflawnder yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth, o ystyried nifer y newidiadau yn yr Aelodau Gweithredol yn ystod y flwyddyn; a</li> <li>• thaliadau diswyddo a gadael swydd yn gynnar yn wirfoddol, o ystyried y datblygiadau yn y Bwrdd lechyd.</li> </ul>	<p>Bydd fy nhîm archwilio'n archwilio'r datganiadau ariannol gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd risg hyn, trwy gynnal profion penodol.</p>	<p>Asesais drefniadau'r Bwrdd lechyd a chynhaliais brofion penodol priodol. Ni nodais unrhyw broblemau i'w hysbysu.</p>

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)